

# Adroddiad Ymchwil

Prynu a Darllen  
Llyfrau Cymraeg:

Arolwg Omnibws  
Siaradwyr Cymraeg  
2016



Paratowyd ar ran:  
Cyngor Llyfrau Cymru

Paratowyd gan:  
Beaufort Research



**CYNGOR LLYFRAU CYMRU**  
**WELSH BOOKS COUNCIL**

## Manylion Cyswllt

Cyswllt yr Asiantaeth: Owen Knight

Prosiect: B01650-1-2

Dyddiad: Tachwedd 2016

### Beaufort Research

2 Plas yr Amgueddfa

Caerdydd

CF10 3BG

Ffôn: (029) 2037 8565

E-bost: [enquiries@beaufortresearch.co.uk](mailto:enquiries@beaufortresearch.co.uk)

## Telerau'r Contract

Oni chytunir fel arall, erys canfyddiadau'r astudiaeth hon yn hawlfraint Beaufort Research Cyf ac ni ellir eu dyfynnu, eu cyhoeddi na'u hatgynhyrchu heb gymeradwyaeth y cwmni ymlaen llaw.

Dim ond ar sail anghywirdeb neu gamliwio yr atelir cymeradwyaeth i ddyfynnu neu gyhoeddi.

Rhaid i unrhyw gyhoeddiad a gymeradwyir roi manylion: Beaufort Research Cyf fel darparwr, maint y sampl a dyddiadau maes.

© Beaufort Research Cyf 2016



Ymgwymerwyd â'r prosiect hwn mewn cydymffurfiaeth ag ISO20252

<b>Cynnwys</b>	<b>Tudalen</b>
1 Crynodeb Gweithredol	3
2 Cyflwyniad a Methodoleg	5
3 Prif Ganfyddiadau	6
3.1 Darllen Llyfrau Cymraeg	6
3.1.1 Amllder	6
3.1.2 Nifer y Llyfrau a Ddarllenwyd	8
3.1.3 Mathau o Lyfrau a Ddarllenwyd	9
3.2 Dod o Hyd i Lyfrau Cymraeg a'u Prynu	11
3.2.1 Ffynonellau Gwybodaeth	11
3.2.2 Ble y Prynwyd/Cafwyd y Llyfrau	14
3.2.3 Nifer y Llyfrau a Brynwyd	16
3.2.4 Mathau o Lyfrau a Brynwyd	16
3.2.5 Prynu Ar-lein	17
Atodiad: Holiadur yr Arolwg	18

# 1 Crynodeb Gweithredol

- Ers 2003, mae Cyngor Llyfrau Cymru o bryd i'w gilydd wedi ymchwilio i arferion darllen a phrynu llyfrau Cymraeg drwy Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif ganfyddiadau o'r gwaith ymchwil.
- Yn dilyn cynnydd rhwng 2003 a 2012, mae canran y siaradwyr Cymraeg sy'n darllen llyfrau Cymraeg o gwbl wedi aros yn gymharol gyson rhwng 2012 a 2016 ac mae mwy na dau o bob pump siaradwyr Cymraeg bellach yn darllen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn. Fodd bynnag, mae cynnydd amlwg yn y gyfran sy'n darllen yn fwy rheolaidd (o leiaf unwaith y mis) - o tua un o bob pump yn 2012 i bron i un o bob pedwar yn 2016.
- Roedd y gyfran sy'n darllen o leiaf un llyfr Cymraeg bob mis ar ei uchaf (bron i un o bob tri) ymysg ymatebwyr iau rhwng 16 a 39 oed a'r rhai sy'n gallu darllen Cymraeg 'yn dda iawn'. Yn arbennig, roedd y rhai rhwng 16 ac 24 oed yn gynyddol debygol o fod yn darllen llyfrau Cymraeg o leiaf unwaith y mis (o 12% yn 2012 i 30% yn gwneud hynny yn 2016).
- Mae cynnydd yn y cyfrannu sy'n darllen llyfrau Cymraeg yn gymharol aml yn cael ei adlewyrchu mewn cynnydd yn *nifer* y llyfrau Cymraeg a ddarllenwyd (ymysg y rhai sy'n gorffen o leiaf un llyfr Cymraeg bob blwyddyn), gyda 36% yn darllen mwy na deg llyfr y flwyddyn yn 2016, o gymharu â 28% yn gwneud hynny yn 2012.
- Mae arferion darllen a phrynu'r rhai sydd rhwng 25 a 39 oed (y rhai sydd fwyaf tebygol o fod â phlant yn y cartref), yn parhau i fod yn amlwg yn wahanol i'r rhai mewn categorïau oedran eraill; nhw oedd y garfan a oedd yn darllen y nifer fwyaf o lyfrau Cymraeg ac amlaf, ac roeddent yn fwy tebygol o fod yn darllen llyfrau i blant. Ar gyfer yr ymatebwyr hyn, roedd ysgolion/ colegau yn brif ffynhonnell ar gyfer cael gafael ar lyfrau Cymraeg a chael gwybodaeth amdanynt (yn ogystal â ffrindiau / teulu / llafar gwlad, siopau llyfrau a'r rhyngwyd).
- Yn wir, ar lefel gyffredinol, ymddengys mai llyfrau Cymraeg i blant oedd yr ail fath mwyaf poblogaidd o lyfrau a brynwyd (ar ôl nofelau / ffuglen ac o flaen llyfrau ffeithiol). O ran mathau eraill o lyfrau poblogaidd, ddarllenodd llai o bobl fywgraffiadau / cofiannau nag yn 2012, er mai'r categori hwn o hyd yw'r ail gategori mwyaf poblogaidd ymysg ymatebwyr hyn dros 60 oed (y tu ôl i nofelau / ffuglen).
- Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth am lyfrau Cymraeg wedi aros yn gyson gyda 2012 (siopau llyfrau, ysgolion/ colegau/prifysgolion a ffrindiau / teulu / llafar gwlad). Fodd bynnag, mae Twitter a Facebook ill dau bellach yn ffynonellau gwybodaeth ar gyfer tua un o bob ugain, tra bod gostyngiadau bach yn amlwg ar gyfer S4C, papurau bro a'r Western Mail.

- Mae dylanwad cynyddol y rhyngwrwyd hefyd yn newid arferion darllen a phrynu llyfrau. Mae bron i dri o bob deg siaradwr Cymraeg (28%) wedi prynu llyfr Cymraeg ar-lein - cynnydd o ddeg pwynt canran ers 2012 a ffigur sy'n cyfateb i fwy na phedwar o bob pump (44%) o'r rhai sydd wedi prynu llyfrau Cymraeg o gwbl ac sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd.
- At hynny, mae'r data'n awgrymu er bod llai nag un o bob deg (7%) o'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd wedi prynu e-lyfr Cymraeg (i fyny o ddim ond 2% yn 2012), mae galw sylweddol am e-lyfrau Cymraeg yn bodoli. Dywedodd mwy na dau o bob pump o'r rhai sydd â mynediad i'r rhyngwrwyd y byddent yn ystyried prynu e-lyfr Cymraeg.
- Er mai siopau llyfrau traddodiadol yw'r dull mwyaf poblogaidd o hyd o gael gafael ar lyfrau Cymraeg o bell ffordd ar hyn o bryd (hyd yn oed ymysg y grwpiau oedran ifancaf), mae'r rhyngwrwyd bellach wedi goddiweddu llyfrgelloedd fel yr ail ffynhonnell fwyaf poblogaidd.

## 2 Cyflwyniad a Methodoleg

Ers 2003, mae Cyngor Llyfrau Cymru o bryd i'w gilydd wedi ymchwilio i arferion darllen a phrynu llyfrau Cymraeg. Cynhaliwyd hyn drwy gynnwys cwestiynau yn Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort yn cwmpasu arferion darllen a phrynu, yn ogystal ag ystyried ffynonellau o wybodaeth am lyfrau Cymraeg.

Cynlluniwyd Arolwg Omnibws Siaradwyr Cymraeg Beaufort i gynrychioli'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (dros 16 oed) yng Nghymru. Gan ddefnyddio'r data Cyfrifiad mwyaf diweddar sydd ar gael, mae'r arolwg yn ystyried y cyfrannau sy'n gallu siarad Cymraeg ymhob un o'r 22 o Awdurdodau Unedol yng Nghymru.

Yn ystod pob cyfnod caiff sampl o 500 o ymatebwyr eu cyfweld, gyda chwotâu wedi'u pennu er mwyn adlewyrchu proffil demograffig siaradwyr Cymraeg ac ni chaiff mwy nag un person o bob aelwyd ei gyfweld.

Ers 2011<sup>1</sup> cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn o ganolfan CATI (Computer Aided Telephone Interviewing) benodol Beaufort. Gofynnir cwestiwn agoriadol (ydych chi'n siarad Cymraeg?) i weld a yw darpar gyfranogwr yn siarad Cymraeg, ac i weld felly a yw'n gymwys i gael ei gyfweld.

Defnyddir holiadur dwyieithog ac mae pob cyfwelydd sy'n gweithio ar yr arolwg yn ddwyieithog, felly rhoddir y dewis o gyfweiliad Cymraeg neu Saesneg i bob ymatebydd.

Yn 2016, ychwanegodd Cyngor Llyfrau Cymru gwestiynau at gyfnodau'r arolwg ym mis Ebrill a mis Hydref<sup>2</sup>. At ddbenion yr adroddiad hwn, cafodd data 2016 o fis Ebrill a mis Hydref eu cyfuno, er mwyn rhoi sampl o 1,005 o ymatebwyr, sy'n galluogi dadansoddiad is-grwpiau pellach.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r ymchwil yr ymgwymerwyd â hi yn 2016, gan eu cymharu â data arolygon blaenorol (o 2012, 2006 a 2003) er mwyn dangos tueddiadau dros amser lle y bo'n briodol<sup>3</sup>.

---

<sup>1</sup> Cyn hyn, roedd cyfweiliadau'n cael eu cynnal wyneb yn wyneb.

<sup>2</sup> Mae cyfrolau eraill ar gael sy'n cynnwys yr adroddiad technegol llawn a data ar ffurf tabl sy'n deillio o Arolygon Omnibws Siaradwyr Cymraeg 2016.

<sup>3</sup> Er y cynlluniwyd yr arolygon a gynhaliwyd yn 2012 a chyn hynny i gynrychioli'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (gan ddefnyddio dull samplu cwota), oherwydd y newid o fethodoleg cyfweld wyneb yn wyneb i gyfweld dros y ffôn ar gyfer arolygon 2012 a 2016, dylid cymryd gofal wrth ddehongli data sy'n cymharu â'r data a gasglwyd cyn 2012.

### 3 Prif Ganfyddiadau


#### 3.1 Darllen Llyfrau Cymraeg

Roedd adran gyntaf yr holiadur yn ystyried arferion darllen llyfrau Cymraeg o ran amllder, nifer a math.

##### 3.1.1 Amllder

Mae ffigur 1 isod yn dangos amllder darllen llyfrau Cymraeg, gan gymharu'r data a gasglwyd yn 2003, gyda data 2012, 2006 a 2003. Fel y gwelir o'r siart, bu cynnydd yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg sy'n darllen llyfrau Cymraeg o gwbl rhwng 2003 ac 2012, o 37% i fwy na hanner (55%). Ers 2012, mae'r ganran sy'n darllen llyfrau Cymraeg o gwbl wedi aros yn gymharol gyson (54%), fodd bynnag, mae'r twf yn amlwg yn y gyfran sy'n darllen llyfr Cymraeg yn gymharol aml (o leiaf unwaith y mis), o 19% yn 2012 i bron i chwarter (24%) yn 2016.

**Ffigur 1:** Amllder gorffenn darllen llyfr neu lyfr clawr meddal Cymraeg.



Sylfaen: Pob ymatebydd; 2003 (1,001); 2006 (1,018); 2012 (1,008), 2016 (1,005).


Fel y gellid disgwyl, y prif ffactor gwahaniaethol o ran amllder darllen llyfrau Cymraeg oedd gallu'r ymatebydd i ddarllen Cymraeg. Roedd mwy na hanner (61%) y rhai sy'n gallu darllen Cymraeg yn dda iawn yn gwneud hynny o leiaf unwaith y flwyddyn, o gymharu â thraean (35%) o'r rhai sy'n gallu darllen Cymraeg yn gymharol dda, a llai nag un o bob pump (17%) o'r rhai sy'n gallu darllen Cymraeg tipyn bach / ddim o gwbl.

Roedd siaradwyr Cymraeg a leolir yn y fro Gymraeg (h.y. Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin) rywfaint yn fwy tebygol o ddarllen llyfrau Cymraeg na siaradwyr Cymraeg nag ymatebwyr yng ngweddill Cymru (gweler ffigur 2 isod).

Canfuwyd bod oedran ymatebydd yn ffactor gwahaniaethol arall, gydag ymatebwyr iau fel y rhai mwyaf tebygol o ddarllen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y mis - gyda 30% o bobl rhwng 16 a 24 oed a 32% o bobl rhwng 25 a 39 oed yn gwneud hynny. Pobl rhwng 40 a 59 oedd leiaf tebygol o ddarllen llyfrau Cymraeg o gwbl, gyda llai na hanner (49%) heb wneud hynny o gwbl.

**Ffigur 2:** Amllder gorffen darllen llyfr neu lyfr clawr meddal Cymraeg.

Data 2016, yn ôl gallu darllen Cymraeg, rhanbarth ac oedran.




Sylfaen: Arolwg 2016; darllen Cymraeg yn dda iawn (471); dalen Cymraeg yn gymharol dda (309); darllen Cymraeg dipyn bach / ddim o gwbl (224); y fro Gymraeg (449); gweddill Cymru (556); 16 i 24 oed (91); 25 i 39 oed (204); 40 i 59 oed (318); 60+ oed (392).



### 3.1.2 Nifer y Llyfrau a Ddarllenwyd

Ymysg y rhai a orffennodd ddarllen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn, roedd y mwyafrif (60%) o'r ymatebwyr yn darllen deg llyfr Cymraeg neu lai y flwyddyn ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n darllen deg llyfr neu fwy y flwyddyn wedi cynyddu ers 2012, o 28% i 36%, gyda'r twf amlycaf yn y gyfran sy'n darllen 21 neu fwy o lyfrau Cymraeg y flwyddyn, o 14% yn 2012 i 20% yn 2016.


**Ffigur 3:** Nifer y llyfrau Cymraeg a ddarllenwyd mewn blwyddyn.



Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n gorffen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn; 2003 (277); 2006 (312); 2012 (447); 2016 (435).

Nifer y llyfrau Cymraeg a ddarllenwyd mewn blwyddyn ar gyfartaledd (ymysg y rhai sy'n darllen o leiaf un llyfr y flwyddyn) oedd 21. Roedd merched yn tueddu i ddarllen ychydig mwy o lyfrau na dynion (23 ar gyfartaledd i ferched o gymharu ag 18 i ddynion). Fodd bynnag, yn ôl oedran, roedd y gwahaniaethau mwyaf nodedig. Roedd ymatebwyr rhwng 25 a 39 oed yn tueddu darllen llawer mwy o lyfrau ar gyfartaledd nag ymatebwyr eraill, 39 o lyfrau Cymraeg y flwyddyn ar gyfartaledd, o gymharu â naw llyfr y flwyddyn ar gyfartaledd ymysg y rhai 60 oed a throsodd.

**Ffigur 4:** Nifer y llyfrau Cymraeg a ddarllenwyd mewn blwyddyn ar gyfartaledd.




Sylfaen: Arolwg 2016 - pob ymatebydd sy'n gorffen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn; cyfanswm (435); gwryw (167); benyw (268); 16 i 24 oed (39); 25 i 39 oed (100); 40 i 59 oed (123); 60+ oed (173).

### 3.1.3 Mathau o Lyfrau a Ddarllenwyd

Nofelau / Ffuglen yw'r math mwyaf poblogaidd o lyfrau Cymraeg a ddarllenir o hyd, gyda bron i hanner (47%) o'r rhai sy'n darllen llyfrau Cymraeg yn darllen llyfrau o'r math hwn. Roedd llyfrau poblogaidd eraill yn cynnwys llyfrau i blant (43%) a llyfrau ffeithiol (39%). Bywgraffiadau / cofiannau oedd y math o lyfr mwyaf poblogaidd nesaf a ddarllenwyd (32%), ond roeddent yn gymharol llai poblogaidd nag yn 2012 pan oedd 41% yn darllen y math hwn o lyfr.

**Ffigur 5:** Mathau o lyfrau Cymraeg a ddarllenwyd (%).



*Sylfaen: Arolwg 2016 - pob ymatebydd sy'n gorffen llyfr Cymraeg o leiaf unwaith y flwyddyn; cyfanswm (435).*

Mae yna hefyd rai gwahaniaethau nodedig o ran arferion darllen yn ôl is-grwpiau o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg (gweler ffigurau 6a a 6b).

Mae merched yn fwy tebygol o ddarllen nofelau / ffuglen a llyfrau i blant nag ymatebwyr gwrywaidd, tra bod dynion yn fwy tebygol o ddarllen llyfrau ffeithiol.

O edrych ar arferion darllen yn ôl oedran, ymatebwyr iau (16 i 24 oed) oedd fwyaf tebygol o ddarllen nofelau / ffuglen a llyfrau ffeithiol, a'r rhai 25 i 39 oed (y rhai mwyaf tebygol o fod â phlant yn y cartref) oedd y rhai mwyaf tebygol o fod yn darllen llyfrau i blant o bell ffordd. Llyfrau i ddysgwyr Cymraeg oedd fwyaf poblogaidd ymhlith ymatebwyr 40 i 59 oed, ac ymatebwyr 65 oed a throsodd oedd fwyaf tebygol o fod yn darllen bywgraffiadau / cofiannau a barddoniaeth.

**Ffigur 6a:** Mathau o lyfrau Cymraeg a ddarllenwyd (yn ôl rhyw ac oedran, %).

	Rhyw		Oedran			
	Gwryw	Benyw	16 i 24	25 i 39	40 i 59	60+
Nofelau / Ffuglen	43	<b>51</b>	<b>57</b>	40	43	52
Llyfrau i blant	33	<b>51</b>	28	<b>70</b>	47	22
Llyfrau ffeithiol	<b>49</b>	31	48	28	44	41
Bywgraffiadau / Cofiannau	32	32	17	21	36	<b>45</b>
Barddoniaeth	24	25	28	17	22	<b>32</b>
Llyfrau i ddysgwyr Cymraeg	13	12	11	8	<b>18</b>	11

*Sylfaen:* 167 268 39 100 123 173

Llyfrau i blant a dysgwyr Cymraeg oedd fwyaf tebygol o gael eu darllen gan siaradwyr Cymraeg a leolir y *tu allan* i'r fro Gymraeg ( Ynys Môn, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin), yn ogystal â'r rhai sydd â galluoedd darllen Cymraeg is. Roedd y rheini o'r graddau economaidd-gymdeithasol uchaf, gyda gallu Cymraeg uwch a'r rheini a oedd wedi'u lleoli yn y fro Gymraeg yn gymharol fwy tebygol o fod yn darllen barddoniaeth, bywgraffiadau / cofiannau a nofelau / ffuglen.

**Ffigur 6b:** Mathau o lyfrau Cymraeg a ddarllenwyd (yn ôl rhanbarth, gallu darllen a gradd gymdeithasol, %).

	Rhanbarth		Gallu darllen Cymraeg			Gradd gymdeithasol			
	Y fro Gymraeg	Gweddill Cymru	Da iawn	Cymharol dda	Ddim yn dda iawn	AB	C1	C2	DE
Nofelau / Ffuglen	<b>52</b>	43	<b>55</b>	36	16	<b>56</b>	45	44	36
Llyfrau i blant	38	<b>48</b>	36	<b>50</b>	<b>78</b>	47	39	41	50
Llyfrau ffeithiol	40	38	<b>45</b>	29	20	42	40	36	32
Bywgraffiadau / Cofiannau	<b>35</b>	28	<b>40</b>	20	-	<b>39</b>	30	31	24
Barddoniaeth	<b>28</b>	21	<b>29</b>	17	16	<b>32</b>	18	26	10
Llyfrau i ddysgwyr Cymraeg	9	<b>15</b>	6	<b>16</b>	<b>51</b>	17	8	11	12

*Sylfaen:* 217 218 292 107 36 161 124 89 49

## **3.2 Dod o Hyd i Lyfrau Cymraeg a'u Prynu**


Mae'r adran hon o'r adroddiad yn ystyried ffynonellau gwybodaeth am lyfrau Cymraeg, a ble y caiff llyfrau Cymraeg eu prynu, faint gaiff eu prynu a pha fath. Mae hefyd yn cynnwys adran sy'n edrych yn benodol ar brynu ar-lein a'r galw am e-lyfrau Cymraeg.

### **3.2.1 Ffynonellau Gwybodaeth**

Mae ffigur 7 yn crynhoi'r prif ffynonellau gwybodaeth am lyfrau Cymraeg. Fel y gwelir o'r siart hwn, mae'r ymatebwyr yn derbyn/cael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg o amrywiaeth helaeth o ffynonellau, a siopau llyfrau, ysgol/coleg/prifysgol a ffrindiau/teulu/llafar gwlad oedd y tair prif ffynhonnell gwybodaeth. Y ffynonellau gwybodaeth a nodwyd amlaf wedyn oedd S4C, gwefannau/y rhyngwrwd a llyfrgelloedd. Roedd Facebook a Twitter yn ychwanegiadau newydd at y rhestr yn 2016 a chafodd y naill a'r llall eu crybwyll gan un o bob ugain (6% a 4% yn y drefn honno).

Mae cymharu ffynonellau gwybodaeth a ddefnyddiwyd yn 2016 gyda'r rhai a gafodd eu crybwyll yn 2012 yn datgelu y bu gostyngiad yn y nifer a oedd yn crybwyll S4C (i lawr o 21% yn 2012 i 17% yn 2016), papurau bro (16% i 12%), y Western Mail (7% i 3%) ac hefyd ar gyfer llyfrgelloedd (18% i 15%) a thafleuni/posteri (11% i 8%).

**Ffigur 7:** Ffynonellau gwybodaeth am lyfrau Cymraeg (%).



Sylfaen: Holl ymatebwyr arolwg 2016 (1,005).

Roedd y ffynonellau gwybodaeth yn amrywio'n sylweddol yn ôl oedran yr ymatebydd:

- Roedd ymatebwyr iau (16 i 24 oed) yn fwy tebygol o gael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg gan ysgol/coleg neu brifysgol, wedyn gwefannau/y rhyngwrwd a ffrindiau/teulu/llafar gwlad. Y garfan hon hefyd oedd fwyaf tebygol o gael gwybodaeth drwy Twitter, a'r lleiaf tebygol o ddefnyddio siopau llyfrau.
- Roedd ymatebwyr 25 i 39 oed fwyaf tebygol hefyd o gael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg o ysgol/coleg neu brifysgol, wedyn ffrindiau/teulu/llafar gwlad a siopau llyfrau. Y grŵp oedran hwn hefyd oedd fwyaf tebygol o ddefnyddio Facebook fel ffynhonnell wybodaeth.

- Y prif ffynhonnell wybodaeth ar gyfer ymatebwyr 40 i 59 oedd siopau llyfrau, ffrindiau/teulu/llafar gwlad ac ysgol/ coleg/prifysgol ac roeddent yn fwy tebygol o fod yn darllen papurau bro nag ymatebwyr iau.
- Gan ymatebwyr hŷn 60+ oedd yr amrywiaeth mwyaf o ffynonellau gwybodaeth, gyda thua un o bob pump yn defnyddio pob un o'r canlynol i gael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg: siopau llyfrau, ffrindiau/teulu/llafar gwlad, S4C, papurau bro a phapurau newydd lleol. Nhw hefyd oedd fwyaf tebygol o gael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg drwy wrando ar Radio Cymru. O'u cymharu â phob categori oedran, roedd llai na hanner cymaint o'r categori oedran hwn yn defnyddio'r rhyngwrwyd fel ffynhonnell gwybodaeth am lyfrau Cymraeg.

**Ffigur 8:** Ffynonellau gwybodaeth am lyfrau Cymraeg, (yn ôl oedran, %).


	Oedran			
	16 i 24	25 i 39	40 i 59	60+
Siop lyfrau	16	<b>27</b>	<b>33</b>	<b>25</b>
Yn yr ysgol / coleg / prifysgol	<b>45</b>	<b>35</b>	26	7
Drwy ffrindiau / teulu / llafar gwlad	20	<b>31</b>	26	21
S4C	17	15	18	19
Gwefannau / y rhyngwrwyd	<b>21</b>	<b>22</b>	<b>21</b>	8
Llyfrgell	15	18	15	12
Papurau Bro	4	6	<b>15</b>	<b>18</b>
Papurau Newydd Lleol	6	9	13	<b>18</b>
Radio Cymru	6	8	10	<b>12</b>
Tafleini / Posteri	6	9	9	6
Golwg	5	8	6	8
Facebook	6	<b>12</b>	7	1
Daily Post	4	4	7	7
Cylchgronau eraill	7	4	6	6
Gwefan Cyngor Llyfrau Cymru - Gwales	2	5	<b>8</b>	2
Drwy'r post	5	5	4	5
Twitter	<b>8</b>	5	4	2
Catalogau	5	4	4	3
Y Cymro	6	1	2	<b>7</b>
Papurau newydd eraill	3	4	3	6
Western Mail	3	2	3	4
Eisteddfod	-	1	2	3
<i>Sylfaen:</i>	91	204	318	392

### 3.2.2 Ble y Prynwyd/Cafwyd y Llyfrau

Yn ogystal â chanfod pa gyfran o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg sy'n *darllen* llyfrau Cymraeg, roedd yr arolwg hefyd yn gofyn p'un a oedd ymatebwyr yn *prynu* llyfrau Cymraeg o gwbl (waeth p'un a oeddent yn ddarllenwyr eu hunain ai peidio, e.e. yn prynu llyfrau ar gyfer eraill, gan gynnwys plant). Roedd bron i ddwy ran o dair (65%) o'r holl ymatebwyr yn 2016 wedi prynu llyfr Cymraeg, o gymharu â 61% yn 2012.

Siopau llyfrau Cymraeg yw'r ffynhonnell fwyaf cyffredin o hyd ar gyfer cael gafael ar lyfrau Cymraeg (gweler ffigur 9), gyda saith o bob deg (72%) o'r rhai sy'n prynu neu'n darllen llyfrau Cymraeg yn eu prynu gan y manwerthwyr hyn. Y ffynonellau llyfrau Cymraeg fwyaf cyffredin wedyn yw'r we bellach, gan gynyddu o 21% yn 2012 i 27% yn 2016, wedyn llyfrgelloedd (24% nawr i lawr o 30% yn 2012). Roedd llai nag un o bob pump yn prynu o Eisteddfodau, yn eu cael fel anrhegion, yn eu benthg o'r ysgol neu'r coleg, yn benthg gan ffrindiau neu'r teulu, neu'n prynu o siopau llyfrau mawr/cadwyn.

**Ffigur 9:** Ble y cafwyd llyfrau Cymraeg (%).



Sylfaen: Arolwg 2016 - Pob ymatebydd sy'n prynu neu'n darllen llyfrau Cymraeg (650).

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae prynu llyfrau Cymraeg dros y rhynggrwyd wedi cynyddu'n sylweddol - o ddim ond 1% yn 2003 i 27% yn 2016.

Er y bu cynnydd yn nefnydd y rhynggrwyd ar gyfer prynu llyfr Cymraeg ymhlith pob grŵp oedran, mae ymatebwyr hŷn 60 oed a throsodd yn parhau i fod yn llai tebygol o brynu llyfrau Cymraeg ar-lein, ac hyd yn oed ymysg yr ymatebwyr ieuengaf (16 i 24 oed), mae siopau llyfrau Cymraeg yn parhau i fod yn ffynhonnell fwy poblogaidd (a ddefnyddir gan 52%) na'r rhynggrwyd (37%) o hyd.

Yn ogystal â bod y mwyaf tebygol o brynu llyfrau Cymraeg ar y rhynggrwyd, ymatebwyr iau (16 i 39 oed) oedd fwyaf tebygol o fenthg llyfrau Cymraeg o goleg/ysgol hefyd, tra roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o fod yn prynu o siopau llyfrau Cymraeg a phrynu mewn Eisteddfodau.

**Ffigur 10:** Ble y cafwyd llyfrau Cymraeg (yn ôl oedran, %).

	Oedran			
	16 i 24	25 i 39	40 i 59	60+
Prynu o siop lyfrau Cymraeg	52	67	<b>77</b>	<b>80</b>
Prynu dros y we	<b>37</b>	<b>36</b>	28	12
Benthg o lyfrgell	27	26	20	24
Prynu mewn Eisteddfod	15	15	<b>23</b>	18
Cael fel anrheg	8	18	16	17
Benthg o goleg neu ysgol	<b>28</b>	<b>31</b>	13	7
Benthg gan ffrindiau neu'r teulu	12	18	13	13
Prynu o siopau llyfrau mawr/cadwyn	15	15	14	13
Prynu o siop lyfrau Saesneg	10	10	9	11
Prynu o archfarchnadoedd	<b>15</b>	8	5	5
Prynu drwy glwb llyfrau	5	5	6	2
Prynu o siop elusen / ail law	4	4	4	4
Prynu dros y ffôn	-	1	1	0

Sylfaen:

50

153

217


230



### 3.2.3 Nifer y Llyfrau a Brynwyd

Fel y gwelir o ffigur 11, mae nifer y llyfrau Cymraeg a brynwyd wedi aros yn gymharol gyson dros amser, gyda mwyafrif helaeth (tua phedwar o bob pump) o'r rhai sy'n prynu llyfrau Cymraeg o gwbl yn prynu deg llyfr neu lai y flwyddyn. Y nifer a brynwyd ar gyfartaledd oedd saith, sy'n gyson â 2012, 2006 a 2003.

**Ffigur 11:** Nifer y llyfrau Cymraeg a brynwyd mewn blwyddyn.




Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n prynu llyfrau Cymraeg o gwbl; 2003 (347); 2006 (451); 2012 (622); 2016 (650).

### 3.2.4 Mathau o Lyfrau a Brynwyd

O ran prynu llyfrau, llyfrau i blant oedd y rhai mwyaf poblogaidd o bell ffordd. Mae mwy na hanner (57%) o'r rhai sy'n prynu llyfrau Cymraeg yn prynu llyfrau Cymraeg i blant. Roedd nofelau/ffuglen, llyfrau ffeithiol a bywgraffiadau/cofiannau hefyd y boblogaidd (mae rhwng 29% a 21% o'r rhai sy'n prynu llyfrau Cymraeg yn prynu'r rhain). Roedd llyfrau barddoniaeth a llyfrau i ddysgwyr Cymraeg yn boblogaidd ymysg cyfrannau llai (tua un o bob deg).

**Ffigur 12:** Mathau o lyfrau Cymraeg a brynwyd (%).




Sylfaen: Pob ymatebydd sy'n prynu llyfrau Cymraeg o gwbl (650).

### 3.2.5 Prynu Ar-lein

Yn 2016 roedd bron i dri o bob deg (28%) o'r *holl* siaradwyr Cymraeg wedi prynu llyfr Cymraeg ar-lein - cynnydd o ddeg pwynt canran o 2012 (18%), gan barhau â thuedd gynyddol o 2006 (3%) a 2003% (1%). O'r gweddill, nid oedd mwy na thraean (37%) naill ai wedi prynu llyfrau Cymraeg neu nid oedd ganddynt fynediad at y we, sy'n golygu fod mwy na dwy ran o bump (44%) o'r rhai sydd wedi prynu llyfrau Cymraeg erioed ac sydd â mynediad at y we wedi prynu llyfrau Cymraeg ar-lein.

Ceisiodd yr arolwg hefyd weld pa gyfrannau a oedd wedi prynu e-lyfrau Cymraeg a lefel y galw am e-lyfrau Cymraeg ymysg y rhai nad oeddent wedi gwneud hynny. Fel y gwelir yn ffigur 13, roedd 7% o'r rhai a oedd wedi prynu llyfrau Cymraeg ar-lein neu a oedd â mynediad i'r rhyngwrwd eisoes wedi prynu e-lyfr Cymraeg (i fyny o 2% yn 2012). Fodd bynnag, dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) y byddent yn ystyried gwneud hynny.

**Ffigur 13:** Galw am e-lyfrau Cymraeg (%).



*Sylfaen:* Pob ymatebydd sydd eisoes yn prynu llyfrau Cymraeg ar-lein neu sydd â mynediad i'r rhyngwrwd (577).

## Atodiad: Holiadur yr Arolwg

**Q1** About how often these days do you finish reading a book or paperback in the Welsh-language?

READ OUT AS NECESSARY

- 1  Once a week or more often
- 2  2\3 times a month
- 3  Once a month
- 4  Once every 2\3 months
- 5  2\3 times a year
- 6  Once a year
- 7  Less often
- 8  Never
- 9  Don't know

**Q1** *Tua pha mor aml y dyddiau hyn rydych yn gorffen darllen llyfr yn y Gymraeg?*

DARLLENWCH ALLAN PAN YN ADDAS

- 1  *Unwaith yr wythnos neu fwy aml*
- 2  *2\3 gwaith y mis*
- 3  *Unwaith y mis*
- 4  *Unwaith bob 2\3 mis*
- 5  *2\3 gwaith y flwyddyn*
- 6  *Unwaith y flwyddyn*
- 7  *Llai aml*
- 8  *Byth*

**ASK IF READ A WELSH-LANGUAGE BOOK ONCE A YEAR OR MORE OFTEN  
(CODES 1 TO 6 AT Q1)**

**Q2** On average, how many Welsh-language books do you read in a year?

**Q2** *Ar gyfartaledd, faint o lyfrau Cymraeg rydych yn ei ddarllen mewn blwyddyn?*

\_\_\_\_\_

**ASK IF READ A WELSH-LANGUAGE BOOK ONCE A YEAR OR MORE OFTEN  
(CODES 1 TO 6 AT Q1)**

**Q3** From the following types of books I'm about to read out, please can you tell me what types of Welsh-language books you have read over the last year? Any other types?

READ OUT - CODE ALL MENTIONED

- 1  Novels and Fiction
- 2  Biographies and Autobiographies
- 3  Poetry
- 4  Factual books
- 5  Books for Welsh learners
- 6  Books for children (reading with a child)
- 7  Other (please specify)
- 100  Don't know

**Q3** *O'r mathau gwahanol o lyfrau rwyf am ei darllen allan, allwch chi ddweud wrtha i pa fath o lyfrau Cymraeg rydych wedi'u darllen dros y flwyddyn ddiwethaf? Unrhyw rai eraill?*

**DARLLENWCH ALLAN - CODWICH BOB UN A GRYBWYLLIR**

- 1  *Nofelau \ Ffuglen*
- 2  *Bywgraffiad \ Hunangofiant*
- 3  *Barddoniaeth*
- 4  *Llyfrau ffeithiol*
- 5  *Llyfrau i ddysgwyr Cymraeg*
- 6  *Llyfrau i blant (darllen gyda phlentyn)*
- 7  *Arall (nodwch)*

**ASK IF READ A WELSH-LANGUAGE BOOK ONCE A YEAR OR MORE OFTEN  
(CODES 1 TO 6 AT Q1)**

**Q4** And from the list I'm about to read out, can you tell me where do you usually get your Welsh-language books from? Anywhere else?

READ OUT - CODE ALL MENTIONED

- 1  Buy from a Welsh bookshop (either for yourself or as a present)
- 2  Buy from English language independent bookshop (either for yourself or as a present)
- 3  Buy from large book store or chain (either for yourself or as a present)
- 4  Buy from supermarkets (either for yourself or as a present)
- 5  Buy over the internet (either for yourself or as a present)
- 6  Buy over the phone (either for yourself or as a present)
- 7  Buy through a book club (either for yourself or as a present)
- 8  Buy at an Eisteddfod (either for yourself or as a present)
- 9  Borrow from a library
- 10  Borrow from friends or family
- 11  Borrow from college or school
- 12  Receive as presents
- 13  Other (please specify)
- 100  Don't know

**Q4** *O'r rhestr rwyf am ei ddarllen allan, allwch chi ddweud wrtha i o ble ydych yn cael eich llyfrau Cymraeg fel arfer? Unrhyw le arall?*

**DARLLENWCH ALLAN - CODWICH BOB UN A GRYBWYLLIR**

- 1  *Prynu oddi wrth siop lyfrau Cymraeg (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 2  *Prynu oddi wrth siop lyfrau Saesneg annibynnol (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 3  *Prynu oddi wrth siop lyfrau fawr\cadwyn (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 4  *Prynu oddi wrth archfarchnad (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 5  *Prynu dros y rhyngrwyd (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 6  *Prynu dros y ffôn (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 7  *Prynu drwy glwb llyfrau (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 8  *Prynu mewn Eisteddfod (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 9  *Benthyg o'r llyfrgell*
- 10  *Benthyg gan ffrindiau neuteulu*
- 11  *Benthyg gan goleg neu ysgol*
- 12  *Derbyn fel anrheg*
- 13  *Arall (nodwch)*

**ASK IF READ A WELSH-LANGUAGE BOOK LESS OFTEN THAN ONCE A YEAR OR NEVER (CODES 7 OR 8 AT Q1), OR WHO DO NOT MENTION CODES 1 TO 8 AT Q4**

**Q5** Can I just check, do you ever buy Welsh-language books, either for yourself or for others?

- 1  Yes
- 2  No

**Q5** *Fyddwch chi yn prynu llyfrau Cymraeg, un ai i chi eich hun neu i eraill?*

- 1  *Ydw*
- 2  *Na*

**ASK IF YES AT Q5**

**Q6** Where do you buy them from? Anywhere else?

READ OUT - CODE ALL MENTIONED

- 1  Buy from Welsh bookshop (either for yourself or as a present)
- 2  Buy from English language independent bookshop (either for yourself or as a present)
- 3  Buy from large\chain book stores (either for yourself or as a present)
- 4  Buy from supermarkets (either for yourself or as a present)
- 5  Buy over the internet (either for yourself or as a present)
- 6  Buy over the phone (either for yourself or as a present)
- 7  Buy through a book club (either for yourself or as a present)
- 8  Buy at an Eisteddfod (either for yourself or as a present)
- 9  Other (please specify)
- 100  Don't know

**Q6** *O ble rydych yn eu prynu? Unrhyw le arall?*

**DARLLENWCH ALLAN - CODWICH BOB UN A GRYBWYLLIR**

- 1  *Prynu oddi wrth siop lyfrau Cymraeg (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 2  *Prynu oddi wrth siop lyfrau Saesneg annibynnol (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 3  *Prynu oddi wrth siop lyfrau fawr\cadwyn (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 4  *Prynu oddi wrth archfarchnad (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 5  *Prynu dros y rhyngwyd (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 6  *Prynu dros y ffôn (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 7  *Prynu drwy glwb llyfrau (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 8  *Prynu mewn Eisteddfod (un ai i chi'ch hunain neu fel anrheg)*
- 9  *Arall (nodwch)*

**ASK ALL WHO EVER BUY BOOKS (CODES 1 TO 8 AT Q4 OR YES AT Q5)**

**Q7** On average, how many Welsh-language books do you buy in a year?

**Q7** *Ar gyfartaledd, faint o lyfrau Cymraeg rydych yn ei prynu mewn blwyddyn?*

—

**ASK ALL WHO EVER BUY BOOKS (CODES 1 TO 8 AT Q4 OR YES AT Q5)**

**Q8** What types of Welsh-language books have you bought over the last year? Any other types?

READ OUT - CODE ALL MENTIONED

- 1  Novels and fiction
- 2  Biographies and autobiographies
- 3  Poetry
- 4  Factual books
- 5  Books for Welsh learners
- 6  Books for children (reading with a child)
- 7  Other (please specify)
- 100  Don't know

**Q8** *Pa fath o lyfrau Cymraeg rydych wedi'u prynu dros y flwyddyn ddiwethaf? Unrhyw rai eraill?*

*DARLLENWCH ALLAN - CODWICH BOB UN A GRYBWYLLIR*

- 1  *Nofelau a llyfrau Ffuglen*
- 2  *Cofiannau a Hunangofiannau*
- 3  *Barddoniaeth*
- 4  *Llyfrau ffeithiol*
- 5  *Llyfrau i ddysgwyr Cymraeg*
- 6  *Llyfrau i blant (i'w darllen gyda plant)*
- 7  *Arall (nodwch)*

**ASK ALL WHO EVER BUY BOOKS (CODES 1 TO 8 AT Q4 OR YES AT Q5), UNLESS CODE 5 MENTIONED AT Q4 OR Q6**

**Q9** Have you ever bought a Welsh book online?

IF NO, ASK IF HAVE INTERNET ACCESS

- 1  Yes
- 2  No - but I do have internet access
- 3  No - I don't have internet access
- 4  Don't know \ not sure

**Q9** *A ydych erioed wedi prynu llyfr Cymraeg dros y we?*

*OS NADDO, HOLWCH OS OES GANDDYNT FYNEDIAD I'R RHYNGRWYD*

- 1  *Do*
- 2  *Naddo - ond mae gen i fynediad i'r we*
- 3  *Naddo - dim mynediad i'r we*

**ASK IF CODE 1 OR 2 AT Q9, OR CODE 5 AT Q4 OR Q6****Q10** Would you consider buying a Welsh e-book over the internet?

DO NOT PROMPT - ONE CODE ONLY

- 1  Already do so \ have done so
- 2  Yes - I would consider doing this
- 3  No I wouldn't
- 4  Don't have means of reading an e-book
- 5  Don't know \ not sure

**Q10** *A fydddech byth yn ystyried prynu e-lyfr Cymraeg dros y we?**PEIDIWCH ANNOG - UN COD YN UNIG*

- 1  *Yn gwneud yn barod \ Wedi gwneud yn barod*
- 2  *Byddaf - fyddwn i'n ystyried gwneud hyn*
- 3  *Na fyddaf*
- 4  *Ddim gyda'r gallu i ddarllen e-lyfr*

**ASK ALL****Q11** Where, if anywhere at all, do you get your information about Welsh-language books?

Anywhere else?

PROMPT IF NECESSARY: Where do you get to hear about Welsh-language books?

READ OUT - CODE ALL MENTIONED

- 1  Papurau Bro (Local Community Paper)
- 2  Local newspapers
- 3  Y Cymro
- 4  Western Mail
- 5  Daily Post
- 6  Other newspapers
- 7  Golwg
- 8  Other magazines
- 9  Catalogues
- 10  Leaflets \ Posters
- 11  Through the post
- 12  Bookshop
- 13  Library
- 14  S4C
- 15  Radio Cymru
- 16  Facebook
- 17  Twitter
- 18  Welsh Books Council Website - Gwales
- 19  Other websites \ the internet
- 20  At school \ college \ university
- 21  Through friends or family \ Word of mouth
- 22  Nowhere - no information available
- 23  Nowhere - don't want information
- 24  Other (please specify)
- 100  Don't know



**Q11** O ble, os unrhyw le o gwbl, rydych yn cael gwybodaeth am lyfrau Cymraeg? Unrhyw le arall?

GOFYNWCH FEL BO'R ANGEN: Sut rydych yn cael clywed am lyfrau Cymraeg?

DARLLENWCH ALLAN - CODWICH BOB UN A GRYBWYLLIR

- 1  Papurau Bro
- 2  Papurau Lleol
- 3  Y Cymro
- 4  Y Western Mail
- 5  Daily Post
- 6  Papurau eraill
- 7  Golwg
- 8  Cylchgronnau eraill
- 9  Catalog
- 10  Taflenni \ Posterï
- 11  Trwy'r post
- 12  Siop lyfrau
- 13  Llyfrgel
- 14  S4C
- 15  Radio Cymru
- 16  Facebook
- 17  Twitter
- 18  Gwefan Cyngor Llyfrau Cymru - Gwales
- 19  Gwefannau eraill \ y we
- 20  Yn yr ysgol \ coleg \ prifysgol
- 21  Trwy ffrindiau neu deulu \ Trwy air
- 22  Dim yn unlle - dim gwybodaeth ar gael
- 23  Dim yn unlle - ddim eisiau gwybodaeth
- 24  Arall (nodwch)
- 100  Ddim yn gwybod